| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd** |
| **DYDDIAD** | **Tachwedd 23, 2012** |
| **TEITL** | **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd - Dogfen Hoff Strategaeth Ddrafft** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno'r Ddogfen Hoff Strategaeth Ddrafft i fod yn destun ymgynghori ac ymgysylltu** |
| **ARGYMHELLIAD** | **I gymeradwyo'r Ddogfen Hoff Strategaeth i fod yn destun ymgynghori ac ymgysylltu, cyn ei chyflwyno i'w chymeradwyo gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd** |
| **AWDUR** | **Rheolwr Cynllunio (Polisi) Ynys Môn a Gwynedd Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd** |

## 1 Rheswm dros yr Adroddiad hwn

1.1 I alluogi'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd i ystyried y Hoff Strategaeth ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (CDLl), fel y mae wedi'i gynnwys yn y Ddogfen Hoff Strategaeth Ddrafft Atodiad 1 o'r adroddiad hwn.

## 2 Cefndir

2.1 Mae CDLl ar y Cyd wrthi'n cael ei baratoi yn unol â'r broses a nodir yn y Cytundeb Cyflenwi y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru, ac yn unol ag amserlen ddiwygiedig. Hyd yn hyn, mae'r cerrig milltir canlynol wedi cael eu pasio sydd wedi cyfrannu at ddatblygiad y Ddogfen Hoff Strategaeth Ddrafft.

- Cyflwyno safleoedd posibl a dechrau asesu;
- Ymgysylltu a Chymeradwyo gweledigaeth ac amcanion CDLl ar y Cyd - Mawrth a Mai 2012;
- Ymgysylltu a chymeradwyo Opsiynau Twf Strategol a Dosbarthu – Mawrth a Mai 2012;
- Datblygu sylfaen dystiolaeth gadarn i hysbysu'r cynllun;
- Cynnal asesiadau niferus ar gynnwys y cynllun arfaethedig;
- Paratoi'r 6 adran gyntaf o'r Ddogfen Hoff Strategaeth i'r Panel CDLl ar y Cyd - Medi 2012

2.2 Mae'r Ddogfen Hoff Strategaeth Ddrafft wedi'i rhaglennu i'w hadrodd ar gyfer ei chymeradwyo gan y ddau Gyngor erbyn diwedd Ionawr 2013. Yna bydd y Ddogfen Hoff Strategaeth Ddrafft yn destun ymarfer ymgynghori ac ymgysylltu rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2013. Cyflwynir adroddiad yn nodi'r sylwadau a

dderbyniwyd am y Ddogfen Hoff Strategaeth Ddrafft i'r Panel CDLl ar y Cyd. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn helpu i lywio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Drafft Adneuol, sydd i fod i gael ei ystyried gan y ddau Gyngor ym mis Hydref 2013, a bydd yn destun i ymgynghoriad pellach.

2.3 Dengys Ffigwr 1 yr amserlen ar gyfer symud ymlaen drwy’r prif gamau yn y broses.




Ffig 1 Proses ac amserlen

2.4 Rhoddodd adroddiad a gyflwynwyd i'r Panel CDLl ar y Cyd ym mis Medi 2012 wybodaeth i’r Aelodau am rôl a chwmpas y Ddogfen Strategaeth Ddewisol, a'r math o wybodaeth y byddai ac na fyddai'n ei chynnwys.

2.5 Cafodd yr Aelodau wybod y bydd y Cynllun Adneuol Drafft yn cynnwys llawer mwy o fanylion na’r Ddogfen Strategaeth Ddewisol, mewn perthynas â pholisïau a safleoedd arfaethedig. Yn bwysig, bydd yn adlewyrchu gwaith sylweddol sydd

i'w wneud yn y misoedd nesaf ar uwchgynllunio ardaloedd datblygu. Bydd y Cynllun Adneuol Drafft ei hun yn destun proses 6 wythnos o ymgynghori ffurfiol.

## 3 Cynnwys y Ddogfen Hoff Strategaeth Ddrafft (Atodiad 1)

3.1 Mae adroddiad a gyflwynwyd i'r Panel CDLl ar y Cyd ar y 7fed o Fedi yn nodi chwe adran gyntaf y Ddogfen Hoff Strategaeth Ddrafft. Mae Atodiad 1 yr adroddiad hwn yn atgynhyrchu'r adrannau hynny ***a hefyd yn cynnwys Adrannau 7 ac 8.*** Mae Adran 7 yn nodi sut y mae'r Hoff Strategaeth yn bwriadu cwrdd â gweledigaeth y CDLl ar y Cyd. Mae'n canolbwyntio ar y deilliannau sydd eu hangen i gyflawni'r weledigaeth ac mae'n nodi set o Bolisïau Strategol. Mae Adran 8 yn disgrifio strwythur arfaethedig y Cynllun Drafft Adneuol. Gofynnir i Aelodau ganolbwyntio ar yr ychwanegiadau newydd i'r Ddogfen Hoff Strategaeth Ddrafft, gan fod adrannau 1 i 6 eisoes wedi cael eu cytuno ac yn cael eu cynnwys er mwyn darparu cyd-destun.

3.2 O dan ymbarél nifer o Bolisïau Strategol trosfwaol, mae'r Hoff Strategaeth Ddrafft yn ceisio darparu 4 o ddeilliannau:

- Gwneud y Mwyaf o Gyfleoedd Datblygu Economaidd - Cwrdd â'r angen yn y dyfodol am swyddi, drwy ddarparu ystod a dewis o dir a chyfleoedd ar wahanol fathau o safleoedd sy'n berthnasol i fathau gwahanol o swyddi. Diogelu safleoedd cyflogaeth presennol sy'n perfformio rôl economaidd bwysig yn ardal y Cynllun a thu hwnt i'w ffiniau.
- Tai i Gwrdd ag Anghenion Lleol – Cwrdd â'r angen am gartrefi i'r dyfodol trwy hwyluso datblygiad preswyl a fydd yn darparu 7,665 o unedau tai newydd dros gyfnod 15 mlynedd y cynllun. Hwyluso ystod a dewis o gyfleoedd tai newydd gyda maint anheddau, deiliadaeth a lleoliadau gwahanol gan gynnwys darpariaeth ar gyfer tai fforddiadwy ynghyd â darparu ar gyfer anghenion Sipsiwn a Theithwyr.
- Cryfhau ein Cymunedau, yn rhai Gwledig a Threfol - Sicrhau bod cartrefi a swyddi newydd yn ffurfio rhan o gymunedau wedi'u cynllunio'n dda sydd â'r ystod iawn o gyfleusterau wedi'u darparu ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn. Mae cyfeiriad y teithio yn nhermau Anheddiad Strategaeth ddrafft wedi ei osod allan, a bydd yn cael ei gwblhau cyn y drafodaeth yn y Pwyllgorau y cyfeirir atynt yn adran 4 isod (Llwybr ac Amserlen y Pwyllgorau).
- Gwella Asedau Amgylcheddol yr Ardal - Mae strategaeth wedi'i datblygu i leihau'r effaith ar asedau amgylcheddol ardal y Cynllun. Hefyd amlygir yr angen i reoli gwastraff yn gynaliadwy, lleihau allyriadau a gwneud y mwyaf o atebion adnewyddadwy.

3.3 Mae'r siart a gynhwysir ar ddiwedd yr adroddiad hwn yn rhoi 'Cipolwg' o'r Ddogfen Hoff Strategaeth Ddrafft.

3.4 Rhaid i'r CDLl ar y Cyd fod yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd (SA) sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) fel sy'n ofynnol gan Ddeddf

Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a'r Rheoliadau SEA. Mae'r rhain yn arfau i sicrhau bod polisïau yn y CDLl ar y Cyd yn adlewyrchu egwyddorion datblygu cynaliadwy ac yn cymryd i ystyriaeth unrhyw effeithiau sylweddol y cynllun ar yr amgylchedd. Cynhaliwyd dull integredig o arfarnu ac asesu, lle mae materion economaidd a chymdeithasol yn cael eu hystyried ochr yn ochr ag elfennau amgylcheddol. Mae'r Ddogfen Hoff Strategaeth Ddrafft wedi cael ei hysbysu gan amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol yn cael ei baratoi a bydd ar gael fel dogfen gefndir i'r Ddogfen Hoff Strategaeth Ddrafft.

3.5 Mae gofyn i'r Cynghorau hefyd gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) o'r CDLl o dan Ran IVa o'r Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, & c.) Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2007. Bydd yr HRA yn penderfynu ar unrhyw effeithiau sylweddol tebygol y cynllun ar Safleoedd Ewropeaidd o bwysigrwydd cadwraeth natur ac, os yw'n berthnasol, cwmpas beth sydd angen iddo fod yn destun i "asesiad priodol" (AA) a sut y caiff ei gynnal. Bydd Adroddiad Cwmpasu ar gyfer Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y CDLl ar y Cyd ar gael fel dogfen gefndir i'r Ddogfen Hoff Strategaeth Ddrafft.

3.6 Yn ychwanegol at yr asesiadau hyn, mae Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, Asesiadau Effaith Iechyd ac Asesiadau Effaith Cydraddoldeb hefyd yn cael eu cynnal i asesu’r effeithiau posibl. Bydd adroddiadau o'r asesiadau hyn hefyd ar gael fel dogfennau cefndir i'r Ddogfen Hoff Strategaeth Ddrafft.

## 4 Llwybr ac amserlen y Pwyllgorau

4.1 Pwyllgor Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol Cyngor Sir Ynys Môn - 12 Rhagfyr, 2012

4.2 Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn – Ionawr 2013

4.3 Cabinet Cyngor Gwynedd – Ionawr 2013

4.4 Cyngor Sir Ynys Môn – 24 Ionawr 2014

## 5 Argymhelliad

5. Bod y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cefnogi'r Ddogfen Hoff Strategaeth ddrafft, a fydd yn destun i ymgynghori ac ymgysylltu, cyn ei chyflwyno i'w chymeradwyo gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd.

## <u>STORI Y CYNLLUN</u> HYD AT DDAYBLYGU HOFF STRATEGAETH

